**Cofnodion Wedi'i Gadarnhauy Cyfarfod a Gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2022**
**(cynhaliwyd yn electronig drwy Microsoft Teams a'i ddarlledu'n fyw dros y we)**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Kate Eden | (KE) | Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Digidol/TG) |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Fu-Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| **Yn bresennol:** | | |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn y GIG / Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

| | | |
|---|---|---|
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| | | |
| | | |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Undebau Llafur y Staff |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Undebau Llafur y Staff |
| | | |

*Dechreuodd y cyfarfod am 16:45*

| **Iechyd Cyhoeddus Cymru 9/2022** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan nodi bod dolen i'r darllediad byw ar gael ar y wefan; estynnodd groeso arbennig i'r rhai a oedd yn arsylwi'r cyfarfod ar-lein.

Nododd JW bod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â rheolau ffurfiol y Bwrdd; mae'r manylion ar gael ar y wefan: https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-etiquette/

Crynhodd JW rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethol y sefydliad, â chyfrifoldebau penodol am: osod cyfeiriad strategol; meithrin a chynnal partneriaethau strategol; gosod lefel y risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar gyflawniad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a gosod naws a diwylliant y sefydliad.

Roedd y Bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu dod i weithio a bod ar eu gorau, heb fod ofn unrhyw anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath.

Nododd JW fod hwn yn gyfarfod ar gyfer trafod un mater yn unig, yn unol â gofynion diwedd y flwyddyn i adrodd ar ddefnydd yr arian cyhoeddus a fuddsoddwyd yn y sefydliad.

Pwysleisiodd JW erbyn y cam hwn o'r broses, sef y cam olaf, bod HG a'r Tîm Cyllid, y Gyfarwyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol oll wedi craffu'r adroddiadau drafft yn fanwl.

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi cyfarfod ar 5 Mai 2022 ac ar 14 Mehefin 2922 ac wedi craffu'r drafftiau'n fwy manwl yn ogystal ag ystyried

barn yr Archwilwyr. Ar ran y Bwrdd, diolchodd JW i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o baratoi'r adroddiadau hyn, a'r craffu manwl cyn cyfarfod y Bwrdd.
**Nododd** y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

| **Iechyd Cyhoeddus Cymru 10/2022** | **Datganiadau o fuddiant** |
|---|---|

Ni wnaeth aelodau'r Bwrdd wneud unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| **Iechyd Cyhoeddus Cymru 11/20226** | **Adroddiad Diwedd y Flwyddyn : Adroddiad Blynyddol 2021/22** |
|---|---|

Agorodd JW yr eitem drwy ddatgan gwerthfawrogiad y Bwrdd i arweinyddiaeth HG drwy gydol y flwyddyn heriol hon, ac am y swm aruthrol o waith a wnaethpwyd gan Angela Fisher, Jane Matthews a'r tîm cyllid a phawb oedd ynghlwm â pharatoi'r dogfennau diwedd y flwyddyn.

Cyflwynodd HG yr adroddiad, gan nodi bod y tri adroddiad a gyflwynwyd ger bron y Bwrdd i'w cymeradwyo yn ffurfio Adroddiad Blynyddol cynhwysfawr ar gyfer 2021/22:

- Cyfrifon Blynyddol
- Adroddiad Atebolrwydd 2021/22
- Adroddiad Perfformiad 2021/22
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22
- Adroddiad Cydnabyddiaeth 2021/22

Cyfeiriodd HG at y craffu manwl a gwblhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 5 Mai 2022 a 14 Mehefin 2022; roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22, Barn Archwilio Cymru ar y Cyfrifon Blynyddol a'r adroddiadau diwedd y flwyddyn. Cadarnhaodd bod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi Barn Archwilio anghymwys ar gyfer y Cyfrifon Blynyddol.

Rhoddodd MM drosolwg o ystyriaeth fanwl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol o'r Cyfrifon ar gyfer 2021/22, gan gynnwys clywed cyflwyniad cynhwysfawr o'r cyfrifon drafft yn ei gyfarfod ar 5 Mai 2022. Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi manteisio ar y cyfle i ofyn cwestiynau a chadarnhau agweddau ar yr adroddiadau drafft. Yn dilyn craffu pellach yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2022, cytunodd y Pwyllgor i argymell y dylai'r adroddiadau gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

Cytunodd y Bwrdd i **gymeradwyo'r** adroddiadau canlynol i'w cyflwyno i Llywodraeth Cymru:

- Cyfrifon Blynyddol
- Adroddiad Atebolrwydd 2021/22
- Adroddiad Perfformiad 2021/22
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22
- Adroddiad Cydnabyddiaeth 2021/22

| |
|---|
| **Cam gweithredu: HG/HB** |
| Daeth y cyfarfod i ben am 17:00 |